# Adroddiad Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol

## 07.06.2022

## Y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio

### 1. Aelodau'r grŵp a deiliaid swyddi

### Aelodau o'r Senedd

Cadeirydd: Mike Hedges AS

Janet Finch-Saunders AS
Dr Altaf Hussain AS
Joel James AS
Delyth Jewell AS
Peredur Owen Griffiths AS
Sioned Williams AS

### Aelodau allanol

- Steve Milsom - Cynghrair Pobl Hŷn Cymru (COPA)
- Lynda Wallis - Senedd Pobl Hŷn Cymru; Fforwm Strategaeth 50+ y Fro
- Dereck Roberts - Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru
- Barry Stephens - Cymru Egnïol
- Carys Henry - Ymddiriedolwr Age Cymru
- Charles Carter - Ymddiriedolwr Age Cymru
- Michael Phillips - Age Cymru
- Joshua Hayman - Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Christopher Williams - Cynghrair Henoed Cymru
- Faye Patton - Gofal a Thrwsio Cymru
- Huw Owen - Cymdeithas Alzheimer's Cymru
- Andrea Nicholas-Jones - Action for Elders
- Lucy Symington, Hourglass Cymru
- Georgia Marks, Y Groes Goch Brydeinig
- Melanie Minty - Fforwm Gofal Cymru
- Stephanie Griffiths - Gofal Cymdeithasol Cymru
- Mathew Norman, Diabetes UK Cymru
- Steve Amos, Y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol
- Neeta Baicher - Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain
- Lorraine Morgan - ymgynghorydd annibynnol
- Maria Cheshire-Allen - Prifysgol Abertawe
- Yr Athro Fonesig June Clark - Prifysgol Abertawe
- Dr Roiyah Saltus - Prifysgol De Cymru
- Yr Athro John Williams - Prifysgol Aberystwyth, Cadeirydd Age Cymru

### Ysgrifenyddiaeth

Dr Ceri Cryer - Age Cymru

## 2. Cyfarfodydd y grŵp ers y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf

Lluniwyd cofnodion y cyfarfodydd gan Ceri Cryer a Michael Phillips, Age Cymru.

### Cyfarfod 1

**Dyddiad y cyfarfod:** 9 Chwefror 2021 – cyfarfod ar-lein.

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn ystod y bumed Senedd, ac mae'r cofnodion wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

### Cyfarfod 2

**Dyddiad y cyfarfod:** 15 Mehefin 2021 – cyfarfod ar-lein.

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Mike Hedges AS (Cadeirydd) | Joshua Hayman, Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Ryland Doyle, Swyddfa Mike Hedges AS | Rhys Jackson, Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Peredur Owen Griffiths AS | Steve Milsom, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru (COPA) |
| Dr Altaf Hussain AS | Melanie Minty, Fforwm Gofal Cymru |
| Joel James AS | Faye Patton, Gofal a Thrwsio Cymru |
| Sioned Williams AS | Michael Phillips, Age Cymru |
| Lee Gonzalez, Swyddfa Joel James AS | Dr Roiyah Saltus - Prifysgol De Cymru: |
| Huw Bendall, Fforwm Ymgynghorol Age Cymru | Matthew Russell, MSD |
| Yr Athro Fonesig June Clark, Prifysgol Abertawe | Lynda Wallis, Fforwm Strategaeth 50+ y Fro; Senedd Pobl Hŷn Cymru |
| Lauren Cooper, Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | Christopher Williams, Cynghrair Henoed Cymru Cymru |
| Ceri Cryer, Age Cymru | Yr Athro John Williams, Cadeirydd Age Cymru; Prifysgol Aberystwyth |
| Stephanie Griffith, Gofal Cymdeithasol Cymru | |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Delyth Jewell AS | Vikki Howells AS |
| Janet Finch-Saunders AS | Rachael Nicholson, Hourglass Cymru |

Croesawodd Mike Hedges AS bawb i'r cyfarfod.

Cafodd Mike Hedges AS ei enwebu a'i ethol yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio.

.

Cyflwynodd Ceri Cryer o Age Cymru ganfyddiadau'r arolwg ar brofiadau pobl 50 oed neu'n hŷn yng Nghymru yn ystod cyfnod clo'r gaeaf oherwydd COVID-19. Cafodd yr arolwg ei gynnal yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill 2021 gan Age Cymru, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru (COPA), Senedd Pobl Hŷn Cymru, Cymru Egnïol, Confensiwn Cenedlaethol Pensiynwyr Cymru a Fforwm Pensiynwyr Cymru.

Cyflwynwyd y canfyddiadau ar ffurf cyflwyniad PowerPoint, a chafodd aelodau'r grŵp gopi o'r cyflwyniad hwn yn dilyn y cyfarfod.

**Trafodaeth: Beth, ym marn y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio, yw'r blaenoriaethau sy'n deillio o ganfyddiadau'r arolwg?**

Lynda Wallis - mae'r canfyddiadau yn debyg iawn i'r hyn yr oeddwn yn ei ddisgwyl. Mae llawer o bobl hŷn yn dal i deimlo'n nerfus am fynd allan; nid yw clybiau cinio wedi agor eto. I gydymffurfio â'r rheoliadau, yn hytrach na chael un cyfarfod mawr mae rhai grwpiau wedi gorfod trefnu sawl cyfarfod llai, sy'n costio mwy o arian.

Mae'n ddiogel i bobl fynd allan, er bod rhai pobl yn anwybyddu'r saethau cyfeiriad ar y stryd - mae rhai pobl yn poeni'n fwy nag eraill hefyd. Mae'n amser i ni feithrin hyder pobl hŷn.

Steve Milsom – Mae'r arolwg yn ddarn rhagorol o waith. Nid ydym wedi dod at ddiwedd y pandemig eto; mae mwy i ddod, felly mae'n rhaid i ni barhau i ofyn barn pobl hŷn, oherwydd mae'n hanfodol iddynt fod yn rhan greiddiol o'n gwaith ymgysylltu. Hefyd, mae'n rhaid i ni flaenoriaethu ymdrin â phobl hŷn sydd ar restrau aros hir am driniaeth gan y GIG. Mae'n rhaid ystyried barn pobl hen iawn.

Fodd bynnag, mae rhai pethau cadarnhaol wedi dod i'r fei, yn enwedig y cymorth a gawsom gan wirfoddolwyr iau. Gadewch i ni gynnal eu diddordeb mewn ymgysylltu â phobl hŷn.

Mae pryderon hefyd wedi'u mynegi ynghylch yr effaith ar gyflogaeth. Canfu'r Ganolfan Heneiddio'n Well fod pobl hŷn yn ei chael hi'n anoddach cael swyddi, a gallai hyn gyfrannu at gynyddu tlodi pensiynwyr.

John Williams - Mae'r adroddiad hwn yn hynod werthfawr. Mae'r her ar ôl COVID-19 yr un mor fawr â'r her yn ystod y pandemig ei hun. Mae yna lawer o broblemau cudd fel mynediad at ofal iechyd a cham-drin pobl hŷn. Dylai person hŷn gael cynnig ymgynghoriad wyneb yn wyneb gan ei feddyg teulu os dyna sydd ei angen. Mae gwasanaethau mewn ysbytai yma yng Ngheredigion bellach yn cael eu darparu ar sail ranbarthol, felly mae rhai pobl yn Aberystwyth yn gorfod teithio i Hwlffordd i gael rhai triniaethau. Mae rhai pobl hŷn bellach wedi'u gwarchod ers 18 mis ac maent yn poeni'n arw am adael y tŷ. Mae'r heriau'n anodd ac yn gymhleth.

Sioned Williams AS - Yn dilyn y cyfnod clo, bydd yn rhaid gwneud rhai pethau yn wahanol. Nid yw pobl hen iawn yn gyrru, neu nid oeddent yn gyrru cyn y

pandemig, ac nid ydynt bellach yn gallu cael lifft. Ar yr un pryd, mae gwasanaethau bws wedi'u torri, ond mae trafnidiaeth gyhoeddus effeithlon yn hanfodol i roi cyfleoedd i gymdeithasu.

Melanie Minty – Nid ydym wedi gweld pen llanw’r effaith ar ofal oherwydd diffyg capasiti yn y system. Mae llawer o ofalwyr cyflogedig yn ymddeol yn gynnar, ond mae'r galw'n cynyddu.

Altaf Hussain AS – Mae gan bobl yr hawl i fyw heb boen. Mae COVID yn realiti, felly mae'n rhaid i ni ddysgu byw ag ef. Dylai'r bobl sydd ar restrau aros hir ffonio eu meddyg teulu. Dylid ystyried cleifion yn eu cyfanrwydd ac nid canolbwyntio ar un symptom yn unig. Mae parhad gofal a phwy sy'n eich trin yn bwysig. Mae’n rhaid i bobl hŷn gael mynediad at holl wasanaethau’r GIG.

Peredur Owen Griffiths AS – Yr hyn sydd wedi fy syfrdanu yw gallu pobl i newid ac addasu. Mae’n rhaid i ni gofio’r ffyrdd amgen hyn o wneud pethau.

Mike Hedges AS – Bu cynnydd yn nifer y bobl hŷn sy'n gofalu am bobl hen iawn. Wrth i ni fyw yn hirach, rydym yn dod yn ofalwyr ein hunain. Bydd Ceri yn llunio rhestr o’r blaenoriaethau a nodwyd yn yr arolwg ac yn ei rhannu â ni er mwyn inni allu mabwysiadu’r blaenoriaethau hyn ac ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a’r Gweinidog sy’n gyfrifol am bobl hŷn i’w trafod.

**Fformat a dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol**

Mike Hedges AS - Byddwn yn parhau i gynnal cyfarfodydd ar-lein am y tro.

Ceri Cryer – mae’r cyfarfod nesaf wedi’i drefnu ar gyfer dydd Mawrth 19 Hydref 2021, a’r pwnc dan sylw fydd ariannu gofal cymdeithasol.

Steve Milsom – Rwy’n croesawu’r ffocws ar un pwnc oherwydd ei fod yn rhoi cyfle i ni drafod manylion y pwnc dan sylw. Bydd Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio yn cael ei chyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

Altaf Hussain – Dylai’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol adrodd i’r grŵp hwn.

Lynda Wallis – Gallai cam-drin pobl hŷn fod yn bwnc trafod yn y dyfodol.

John Williams – Gallem edrych ar Ddeddf 2014. Pa mor effeithiol yw'r mesurau? Pa mor effeithiol yw'r atgyfeiriadau? Ydyn nhw'n dod yn atgyfeiriadau?

**Cyfarfod 3**

**Dyddiad y cyfarfod:** 19 Hydref 2021 – cyfarfod ar-lein.

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Mike Hedges AS (Cadeirydd) | David Kirby, Gofal a Thrwsio Cymru |
| Ryland Doyle, Swyddfa Mike Hedges AS | Georgia Marks, Y Groes Goch Brydeinig |
| Dr Altaf Hussain AS | Steve Milsom, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru (COPA) |
| Eleri Griffiths, Swyddfa Heledd Fychan AS | Melanie Minty, Fforwm Gofal Cymru |
| Anna Jones, Swyddfa Peredur Owen Griffiths AS | Andrea Nicholas-Jones, Action for Elders |
| Charles Carter, Age Cymru, Ymddiriedolwr | Michael Phillips, Age Cymru |
| Andrea Cooper, Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | Dereck Roberts, Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru |
| Ceri Cryer, Age Cymru | Lucy Symington, Hourglass Cymru |
| Emma Davies, Gofal Cymdeithasol Cymru | Lynda Wallis, Fforwm Strategaeth 50+ y Fro; Senedd Pobl Hŷn Cymru |
| Carys Henry, Ymddiriedolwr Age Cymru | Christopher Williams, Cynghrair Henoed Cymru Cymru |
| Louise Hughes, Age Cymru | Yr Athro John Williams, Cadeirydd Age Cymru; Prifysgol Aberystwyth |
| Rhys Jackson, Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Peredur Owen Griffiths AS | Joshua Hayman, Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Steve Amos, Y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol | Matthew Russell, MSD |
| Huw Bendall, Fforwm Ymgynghorol Age Cymru | |

Croesawodd Mike Hedges AS bawb i'r cyfarfod.

<u>Cofnodion a’r wybodaeth ddiweddaraf</u>

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2021. Roedd Ceri Cryer wedi anfon neges e-bost at aelodau’r grŵp yn nodi’r blaenoriaethau a oedd yn deillio o ganfyddiadau’r arolwg a gynhaliwyd gan Age Cymru, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru (COPA), Senedd Pobl Hŷn Cymru, Cymru Egnïol, Confensiwn Cenedlaethol Pensiynwyr Cymru a Fforwm Pensiynwyr Cymru ar brofiadau pobl 50 oed neu'n hŷn yng Nghymru yn ystod cyfnod clo'r gaeaf oherwydd COVID-19.

Roedd y blaenoriaethau a nodwyd fel a ganlyn:

- Lleihau amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- Yr angen i wella gofal cymdeithasol
- Cefnogi nifer gynyddol o bobl i ymdopi â phrofedigaeth a chynnig gweithgareddau i wella iechyd meddwl ac iechyd corfforol
- Unigrwydd ac unigedd
- Yr amgylchedd adeiledig mewn cymunedau
- Trafnidiaeth gyhoeddus

Cam i'w gymryd: Mike Hedges AS i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol mewn perthynas â'r blaenoriaethau sy'n deillio o'r arolwg.

Cam-drin pobl hŷn

Rhoddodd Louise Hughes, Pennaeth Diogelu ac Eiriolaeth Age Cymru, gyflwyniad ar ddiogelu pobl hŷn. Cafodd aelodau'r grŵp gopi o'r cyflwyniad yn dilyn y cyfarfod.

Trafodaeth

Mike Hedges AS – Mae'n anodd nodi achosion o gam-drin ariannol gan fod llawer o bobl hŷn yn ei chael hi'n anodd rhoi gwybod i'r awdurdodau am eu plant a'u hwyrion os mai nhw sy'n eu cam-drin.

Lynda Wallis – Dylem gofio bod dynion yn cael eu cam-drin yn ogystal â menywod, ond rydym yn tueddu i'w hanwybyddu. Mae'n bwysig bod pobl yn ymwybodol o'r rhif ffôn 159 newydd sy'n galluogi pobl i roi gwybod am sgamiau ariannol, sy'n gam cadarnhaol ymlaen.

Steve Milsom – Mae'r papur hwn yn amlygu graddfa a difrifoldeb y broblem, sy'n rhywbeth y mae'n rhaid i'r Senedd fynd i'r afael ag ef.

Lucy Symington – Mae'n rhaid i ni ddeall sut y gallwn gynyddu nifer yr achosion o ddatgeliadau uniongyrchol gan ddioddefwyr camdriniaeth.

Andrea Nicholas-Jones – Mae dynion yn cyfrif am o leiaf 2/5 o achosion o gam-drin pobl hŷn, ac mae'n rhaid i ni fod yn ymwybodol nad yw cam-drin dynion yn cael ei adrodd yn ddigonol ar hyn o bryd. Dim ond un lloches sydd ar gael i gefnogi dynion sy'n cael eu cam-drin. Nid diogelu yw'r unig ffactor; mae'r mater hwn hefyd yn cwmpasu treisio, ymosod a cham-drin, yn enwedig ymhlith pobl sy'n byw gyda dementia.

Georgia Marks – Mae angen inni fod yn ymwybodol bod llawer o bobl sy'n cael eu cam-drin wedi'u hynysu oddi wrth wasanaethau.

Louise Hughes – Mae'n rhaid adolygu'r termau a'r ieithwedd rydym yn eu defnyddio wrth drafod y mater hwn. Mae defnyddio'r term 'cam-drin pobl hŷn' yn gwneud i'r effeithiau swnio'n llai eithafol.

Lucy Symington – Mae cam-drin dynion hŷn wedi’i nodi gan y Comisiynydd Pobl Hŷn yn ddiweddar. Mae'r cysylltiad rhwng cam-drin a dementia bellach yn cael ei drafod. A fyddai cryfhau deddfwriaeth yng Nghymru yn helpu? Mae gennym Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant eisoes ond beth arall sydd ei angen arnom? Mae niferoedd uchel o achosion yn dod drwy awdurdodau lleol o hyd.

Yr Athro John Williams – A yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn gweithio? Yn rhannol ond dim digon. Ni ddefnyddir gorchmynion amddiffyn ac mae angen ailfeddwl y ddeddfwriaeth. Am ba resymau y mae pobl yn gwrthod cymorth? A ydynt yn ymwybodol o’u hawliau ac a ydynt yn byw’n rhydd o fygythiad?

Yn y gorffennol, roedd gan arolwg trosedd Lloegr a Chymru derfyn oedran o 60 oed o ran cofnodi troseddau, ond erbyn hyn mae’r trothwy wedi cynyddu i 75 oed - mae angen data arnom, er nad ydym yn gwybod pa mor ddibynadwy ydyw oherwydd mae'n debyg ei fod yn tanamcangyfrif y gwir ffigurau.

Lynda Wallis - Mae’n anodd i fenywod adrodd am gamdriniaeth ar ôl bod mewn priodas am fwy na 30 mlynedd. Mae’n gam enfawr i adrodd am gamdriniaeth yn yr amgylchiadau hynny. Ble maen nhw’n mynd? Ni allwch leoli menywod hŷn gyda menywod iau â theuluoedd mewn llochesi. Pam fod yn rhaid i fenywod adael y cartref ac nid yr unigolion sy'n eu cam-drin?

Lucy Symington – Sut allwn wella'r ffordd yr ydym yn gwerthuso’r ddeddfwriaeth bresennol? Oes arnom angen mwy o fewnbwn gan bobl hŷn a gweithwyr cymdeithasol?

Louise Hughes – Gallaf gefnogi unrhyw un o’r camau gweithredu sy’n deillio o waith y grŵp hwn. Yn ogystal â’r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mae gennym ddeddfwriaeth ynghylch trais yn erbyn pobl hŷn.

Yr Athro John Williams - Mae’n rhaid i'r ddau ddarn gwych hyn o ddeddfwriaeth gyd-fynd â’i gilydd. Mae gan yr Alban y pwerau ond nid ydynt yn eu defnyddio’n aml.

Andrea Cooper – Ystadegau o Essex o’r Prosiect Essex Ddiogelach: yn 2023, roedd ystadegau’n cael eu cofnodi ar gyfer pobl dros 74 oed.

Gadawodd Mike Hedges AS y cyfarfod i fynd i un o ddigwyddiadau’r Senedd.

Dywedodd Ceri Cryer y byddai'n coladu’r materion y mae’r aelodau’n eu codi yn ystod y drafodaeth, gyda'r bwriad o drafod y materion hyn ymhellach gyda'r grŵp i gytuno ar unrhyw gamau gweithredu i'w cymryd. Roedd y materion a drafodwyd yn cynnwys yr hyn a ganlyn:

- Mae’n rhaid i’r Senedd fynd i’r afael â graddfa a difrifoldeb achosion o gam-drin pobl hŷn.

- Nid yw cam-drin pobl hŷn yn cael ei adrodd yn ddigonol ac nid yw'n cael ei gofnodi'n ddigonol; mae angen data dibynadwy arnom.
- Mae'n rhaid cynyddu nifer yr achosion o ddatgeliadau uniongyrchol gan ddioddefwyr camdriniaeth.
- Mae'n rhaid ailfeddwl y ddeddfwriaeth bresennol. Nid yw gorchmynion amddiffyn yn cael eu defnyddio. A yw pobl hŷn yn ymwybodol o'u hawliau ac a ydynt yn byw'n rhydd o fygythiad?
- Mae diffyg llochesi addas ar gyfer pobl hŷn sy'n dioddef camdriniaeth.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Mae dyddiad cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio i'w gadarnhau, ond bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn y flwyddyn newydd. Rhoddodd Ceri y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am y rheswm dros newid y pwnc ar gyfer cyfarfod heddiw: y pwnc a drefnwyd yn wreiddiol oedd cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol, ac fe wahoddwyd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'n hapus i ddod i gyfarfod yn y dyfodol, gan ei bod yn bwysig aros am ganlyniad yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ddiwedd mis Hydref. Roedd y Dirprwy Weinidog am roi sicrwydd i'r grŵp bod cryn dipyn o waith eisoes wedi'i wneud wrth edrych ar yr opsiynau hirdymor ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru drwy waith y Grŵp Rhyngweinidogol ar Dalu am Ofal Cymdeithasol.

Bydd Ceri yn cysylltu â'r aelodau maes o law i roi gwybod am ddyddiad y cyfarfod nesaf.

**<u>Cyfarfod 4</u>**

**Dyddiad y cyfarfod:** 8 Mawrth 2022 – cyfarfod ar-lein.

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Mike Hedges AS (Cadeirydd) | Rachel Lewis, Llywodraeth Cymru |
| Julie Morgan AS, Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol | David McKinney, Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Ryland Doyle, Swyddfa Mike Hedges AS | Lorraine Morgan, Ymgynghorydd annibynnol |
| A Hughes-Howells, Swyddfa Dr Altaf Hussain AS | Andrea Nicholas-Jones, Action for Elders |
| Anna Jones, Swyddfa Peredur Owen Griffiths AS | Faye Patton, Gofal a Thrwsio Cymru |
| Huw Bendall, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru (COPA) | Michael Phillips, Age Cymru |
| Ceri Cryer, Age Cymru | Dereck Roberts, Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru |
| Gethin Edwards, Llywodraeth Cymru | Dr Roiyah Saltus, Prifysgol De Cymru |
| Carys Henry, Age Cymru, Ymddiriedolwr | Barry Stephens, Cymru Egnïol |
| Rhys Jackson, Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | Yr Athro John Williams, Cadeirydd Age Cymru; Prifysgol Aberystwyth |
| Sion Jones, Cymdeithas Alzheimer’s Cymru | |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Peredur Owen Griffiths AS | Dr Bernadette Fuge, Llywydd Age Cymru |
| Charles Carter, Age Cymru, Ymddiriedolwr | Joshua Hayman, Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Maria Cheshire-Allen, Prifysgol Abertawe | Lynda Wallis, Fforwm Strategaeth 50+ y Fro; Senedd Pobl Hŷn Cymru |

Croesawodd Mike Hedges AS bawb i'r cyfarfod.

<u>Cofnodion a’r wybodaeth ddiweddaraf</u>

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2021.

Cam i’w gymryd: Gan gyfeirio at drafodaethau a gafwyd yn ystod y cyfarfod blaenorol ynghylch cam-drin pobl hŷn, gofynnodd Mike Hedges AS i Ceri Cryer wahodd Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, i ddod i un o gyfarfodydd y grŵp yn y dyfodol.

**Cyflwynodd Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio:**

Rydym yn byw'n hirach, diolch i ddatblygiadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Fel cenedl, mae gennym ni niferoedd cynyddol o bobl hŷn - yn fwy nag erioed o'r blaen. Mae hyn yn creu heriau yn ogystal â chyfleoedd. Mae COVID-19 wedi cael effaith andwyol sylweddol ar fywydau llawer o bobl hŷn yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r pandemig hefyd wedi dod â'r gorau allan mewn llawer o bobl, gan ddangos parodrwydd a gwytnwch pobl hŷn i estyn allan, i wirfoddoli ac i helpu pobl eraill mewn angen.

Mae'r heriau a wynebwn wrth gyflawni'r strategaeth hon yn rhai tymor byr a thymor hir. Yn y tymor byr, mae'n rhaid adfer gwasanaethau ar ôl y pandemig. Yn y tymor hir, byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cymunedau oed gyfeillgar ledled Cymru. Dyma gymunedau sy'n galluogi ac yn cefnogi pobl hŷn i fyw a heneiddio'n dda.

Hoffwn ddechrau drwy bwysleisio pwysigrwydd y strategaeth hon yng nghyd-destun y Rhaglen Lywodraethu sydd newydd ei hadolygu ac a fydd yn weithredol tan 2026. Mae'r rhaglen hon wedi'i halinio mewn cymaint o ffyrdd â'r materion a amlygir yn y strategaeth, gan gynnwys:

- darparu triniaethau sydd wedi'u gohirio oherwydd y pandemig;
- sicrhau gwell mynediad at feddygon, nyrsys, deintyddion a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill; a
- blaenoriaethu iechyd meddwl ac adolygu llwybrau cleifion.

Mae'r holl gamau gweithredu hyn wedi'u hymgorffori yn y rhaglen, a byddant yn cael eu cyflawni fel rhan o'n strategaeth i greu Cymru o blaid pobl hŷn.

Hoffwn roi trosolwg ichi o'r strategaeth, gan gynnwys y cynnydd hyd yn hyn a beth rydym yn bwriadu ei wneud nesaf.

Cyhoeddwyd ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio ar 7 Hydref 2021, yn dilyn rhaglen helaeth o ymgysylltu â phobl hŷn a'u cynrychiolwyr. Mae'r strategaeth yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer Cymru o blaid pobl hŷn, sy'n cefnogi pobl o bob oed i fyw a heneiddio'n dda.

Mae'r strategaeth yn herio stereoteipiau oedraniaethol o bobl hŷn fel derbynwyr goddefol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol – rwy'n pryderu y gallai'r pandemig fod wedi helpu i wreiddio stereoteipiau o'r fath. Mae'n hawdd iawn diystyru'r ffyrdd niferus y mae pobl hŷn yn cefnogi ffyniant ein cymunedau.

Ni ddylem anghofio bod llawer o bobl hŷn sy'n byw gyda dementia yn cael gofal gan eu partner, brodyr a chwiorydd neu gymdogion sy'n aml yn hŷn hefyd. Ni ddylem anghofio ychwaith fod llawer o oedolion sy'n gweithio yn dibynnu ar neiniau a theidiau am ofal plant. Daeth gwerth gwirfoddolwyr hŷn i'r amlwg yn ystod y pandemig wrth i nifer o elusennau gael trafferth ymdopi heb eu cefnogaeth. Cyn COVID-19, amcangyfrifwyd mai gwerth cyfraniad pobl hŷn i economi Cymru oedd dros £2 biliwn y flwyddyn.

Nod y Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio yw newid y ffordd y mae pob un ohonom yn meddwl ac yn teimlo am heneiddio - rydym am greu Cymru lle mae pawb yn edrych ymlaen at heneiddio. Dyma Gymru lle gall unigolion gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain tra'n teimlo'n hyderus y bydd cymorth ar gael ac yn hygyrch iddynt os oes angen.

Diolch i ddatblygiadau arloesol mewn gofal iechyd a thechnoleg, mae'r boblogaeth fyd-eang o bobl dros chwe deg oed wedi bod yn tyfu'n gyflymach nag unrhyw grŵp oedran arall. Fodd bynnag, dangosodd y pandemig pa mor hawdd y gellir dileu'r enillion hyn.

Hefyd, dangosodd y pandemig pa mor bwysig yw hi fod cenedlaethau gwahanol yn deall ei gilydd, fel y gallant dynnu at ei gilydd ar adegau o argyfwng, gan wneud y gorau o'n cryfderau fel cymunedau cryf, llawn bwrlwm ledled Cymru. Mae gweithio mewn partneriaeth ar draws cenedlaethau, sectorau a chymunedau yn hanfodol i greu Cymru o blaid pobl hŷn.

I droi ein gweledigaeth yn realiti, eleni rydym wedi dyrannu £550,000 i awdurdodau lleol i gefnogi eu gwaith o ddod yn sefydliadau o blaid pobl hŷn ac yn aelodau o Rwydwaith Dinasoedd a Chymunedau Oed Gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd. Er mwyn ennill aelodaeth, rhaid i awdurdodau lleol ddangos sut y maent yn ymgysylltu â phobl hŷn. Rhennir ein gweledigaeth â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, sy'n darparu cymorth ac arweiniad gwerthfawr i awdurdodau lleol wrth iddynt weithio tuag at statws sefydliadau o blaid pobl hŷn. Byddaf yn cynyddu'r cyllid hwn i £1.1 miliwn ar gyfer 2022-23, gyda £50,000 yn cael ei ddyrannu i bob awdurdod lleol. Bydd gan bob awdurdod swyddog arweiniol. Mae grŵp rhwydweithio yn cael ei gydgysylltu gan fy swyddogion i gefnogi'r gwaith o gyflawni a rhannu arfer da.

Mae Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn wedi llywio'r gwaith o lunio'r strategaeth hon ac maent yn rhan greiddiol ohoni. Rwyf am i Gymru fod yn genedl sy'n dathlu oedran ac, yn unol ag Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig, yn genedl sy'n cynnal annibyniaeth, cyfranogiad, gofal, hunangyflawniad ac urddas pobl hŷn bob amser. Eleni, byddwn yn dyrannu £100,000 i hybu ymwybyddiaeth o hawliau pobl hŷn ac ysbrydoli dealltwriaeth gyffredin o effaith drawsnewidiol dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau.

Rydym yn ffodus bod gennym ddealltwriaeth gadarn o amgylchiadau pobl hŷn yng Nghymru. Yn 2019, fe wnaethom gomisiynu'r Ganolfan Heneiddio Arloesol fyd enwog ym Mhrifysgol Abertawe i feincnodi sefyllfa pobl hŷn yng Nghymru yn erbyn 3 gwlad arall y DU. Diweddarwyd y mesur hwn yn 2021.

Defnyddiodd y ganolfan ystod o fesurau i greu Mynegai Oedran y DU. Mae’r canlyniadau’n dangos bod Cymru ar y brig**,** gyda'r sgôr cyffredinol uchaf, wedi’i dilyn gan yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn eu tro. Mae hyn yn dangos ein bod eisoes yn gwneud llawer o bethau yn dda, a dylem ymfalchïo yn y dystiolaeth glir hon o’n hymrwymiad i gefnogi pobl hŷn.

Hefyd, mae’r adroddiadau Cyflwr y Genedl gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar gyfer 2019 a 2021, sy’n olrhain effaith COVID-19, yn cynnig sylfaen ystadegol ac empirig gadarn inni adeiladu arni. Gyda’i gilydd, mae’r adroddiadau hyn yn rhoi arwydd clir o ble mae’n rhaid gweithredu i wella bywydau pobl hŷn ledled Cymru.

Mae pobl hŷn wedi bod yn helpu i lunio’r strategaeth hon yn uniongyrchol, a byddant yn rhan o’r gwaith o’i chyflawni drwy Fforwm Cynghori’r Gweinidog ar Heneiddio. Byddwn yn rhoi llais a phrofiad pobl hŷn wrth galon ein proses o lunio polisi ac yn parhau i gefnogi pum grŵp a fforwm pobl hŷn cenedlaethol, a gynhelir gan Age Cymru. Gyda’i gilydd, mae eu gwaith yn ein helpu i ddeall y prif faterion sy’n effeithio ar bobl hŷn heddiw, ac i ymateb iddynt. Byddwn yn gweithio ar draws y Llywodraeth i fynd i’r afael â’r ystod eang o ffactorau sy’n dylanwadu ar y ffordd rydym yn heneiddio – o’n systemau iechyd, gofal cymdeithasol a thrafnidiaeth i’r ffordd rydym yn cymdeithasu, yn gweithio ac yn gofalu am bobl eraill. Nod y strategaeth yw datgloi potensial pobl hŷn heddiw a chymdeithas sy'n heneiddio yfory.

Mae’r cynllun gweithredu ar gyfer y strategaeth bron yn barod i’w gyhoeddi. Mae’r cynllun hwn yn nodi camau gweithredu, cerrig milltir ac amserlenni clir ar gyfer monitro’r broses o weithredu’r strategaeth, ac fe’i datblygwyd mewn cydweithrediad â Fforwrm Cynghori’r Gweinidog. Bydd y cynllun cyflawni yn helpu i hoelio sylw timau ar draws Llywodraeth Cymru ar sicrhau bod anghenion pobl hŷn yn cael eu cynnwys yn ein holl brosiectau a rhaglenni gwaith.

Mae’r strategaeth hon yn ein helpu i edrych tuag at y dyfodol, yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth gadarn - mae’n strategaeth a ddatblygwyd ar y cyd â phobl Cymru ac ar gyfer pobl Cymru. Drwy gydnabod a gwerthfawrogi cyfraniadau holl bobl hŷn Cymru, gallwn wrthod rhagfarn ar sail oed a gweithio ar draws cenedlaethau i greu Cymru o blaid pobl hŷn.

**Cwestiynau a thrafodaeth**

Dereck Roberts – O ran cymorth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau ymgysylltu awdurdodau lleol, beth fydd ymateb awdurdodau lleol – a yw’r cyllid wedi’i warantu am dair blynedd? Mae nifer helaeth y pencampwyr sydd gennym yn broblem - mae 24 ohonynt yn Abertawe yn unig! Sut ydyn ni'n ymateb i effaith chwyddiant? Hefyd, mae ein haelodau dal yn teimlo’n nerfus am fynd allan.

Dirprwy Weinidog – Rwy’n disgwyl i’r arian fod yno. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu, ond San Steffan sydd â’r arfau macro-economaidd. Rydym yn ymwybodol bod pobl hŷn yn poeni am fynd allan.

Andrea Nicholas-Jones – Mae cynaliadwyedd cyllid yn hollbwysig. Bu’r strategaeth flaenorol yn llwyddiannus nes i’r cyllid beidio â chael ei neilltuo. O ganlyniad, cafodd y cyllid ei amsugno gan gyllidebau awdurdodau lleol, a chafodd rolau cydgysylltwyr y strategaeth eu dargyfeirio. Sut ydyn ni'n cefnogi pobl hŷn i ailafael yn eu bywydau arferol?

Huw Bendall – Rydym yn cefnogi cymunedau a gwaith ymgysylltu o blaid pobl hŷn. Teimlai COPA mai un mater na chafodd ei drafod ar lefel yr awdurdod lleol yng Nghaerdydd yw realiti gwaith ymgysylltu.

Lorraine Morgan - Wedi cael profiadau tebyg. Ni wnaeth ymgynghoriadau ein cynnwys ni erioed. Nid oes unrhyw sôn am gymunedau gwledig; mae angen tegwch ledled Cymru.

Yr Athro John Williams – Mae hyn yn gyffrous ond yn heriol. Dioddefodd pobl hŷn yn ystod COVID-19 – mae’n drueni nad oes ymchwiliad penodol yng Nghymru. A allwn fod yn siŵr y bydd profiadau pobl hŷn yn cael eu cynnwys yn ymchwiliad y DU?

Sion Jones – Rydym yn croesawu’r ffaith bod y strategaeth yn cysylltu â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia a'r Strategaeth Gofalwyr Di-dâl. Mae'n bwysig bod aliniad â'r cyhoeddiad ar greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol. Mae Alzheimer's Cymru wedi'i gynnwys yn y grŵp arbenigol.

Ymatebion y Dirprwy Weinidog:

- Clywais fod yr arian a ddyrannwyd i awdurdodau lleol yn y gorffennol wedi dod i ben.
- Mae’n ddrwg gennyf os yw’r gwaith ymgysylltu yng Nghaerdydd yn ymddangos yn symbolaidd yn unig, gan mai’r awdurdod hwnnw yw’r unig un i wneud cais i ymuno â Rhwydwaith Dinasoedd a Chymunedau Oed Gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd
- Lorraine, mae'n ddrwg gennyf os na wnaeth ymgynghoriadau gyrraedd eich cymuned.
- O ran ymchwiliad penodol yng Nghymru, rwy'n meddwl bod ein prosesau ni yn rhy gysylltiedig â’r prosesau yn Lloegr. Fodd bynnag, mae’r Prif Weinidog wedi dweud y bydd yn siarad â Phrif Weinidog y DU i sicrhau nad troednodyn yn unig fyddwn ni, yn enwedig o safbwynt y teuluoedd mewn profedigaeth sydd wedi cyfarfod â Gweinidogion. Rydym yn awyddus i graffu’n fanwl ar yr hyn a ddigwyddodd.
- Mae sefydlu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yn gam cyffrous. Mae’n rhaid iddo fod ar gael yn rhad ac am ddim yn ôl yr angen - er enghraifft, gwasanaethau iechyd meddwl. Mae’n rhaid i ni edrych ar gyflog byw.

Dereck Roberts – Nid yw’r Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol am gael ymchwiliad penodol yng Nghymru gan fod yr undebau eisoes yn cyfrannu at ymchwiliad y DU

Lorraine Morgan - yn cefnogi ymchwiliad penodol yng Nghymru.

**Camau gweithredu**

Dylid gwahodd Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, i gyfarfod yn y dyfodol.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** Dydd Mawrth 24 Ebrill 2022, 12.15 – 13.30, i drafod cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol.

**<u>Cyfarfod 5.</u>**

**Dyddiad y cyfarfod:** 24 Ebrill 2022 – cyfarfod ar-lein.

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Mike Hedges AS (Cadeirydd) | Maria Cheshire-Allen, Prifysgol Abertawe |
| Julie Morgan AS, Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol | Ceri Cryer, Age Cymru |
| Dr Altaf Hussain AS | Dr Bernadette Fuge, Llywydd Age Cymru |
| Matt Jenkins, Llywodraeth Cymru | Rhys Jackson, Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Andrew Pithouse, Llywodraeth Cymru<br>Ryland Doyle, Swyddfa Mike Hedges AS | Victoria Lloyd, Age Cymru<br>Georgia Marks, Y Groes Goch Brydeinig |
| Ioan Bellin, Swyddfa Rhys ab Owen MS | Steve Milsom, COPA |
| Billy Jones, Swyddfa Peredur Owen Griffiths AS | Lorraine Morgan, Ymgynghorydd annibynnol |
| Jason McLellan, Swyddfa Carolyn Thomas AS | Andrea Nicholas-Jones, Action for Elders |
| Heather Ferguson, Age Cymru | Mathew Norman, Diabetes UK Cymru |
| Huw Bendall, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru (COPA) | Michael Phillips, Age Cymru |
| Valerie Billingham, Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru<br>Charles Carter, Age Cymru, Ymddiriedolwr | Dereck Roberts, Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru<br><br>Helen Twidle, Age Cymru |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Carys Henry, Age Cymru, Ymddiriedolwr | Melanie Minty, Fforwm Gofal Cymru |

Croesawodd Mike Hedges AS bawb i'r cyfarfod.

<u>Cofnodion a’r wybodaeth ddiweddaraf</u>

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2022.

Y wybodaeth ddiweddaraf: Gwahoddodd Ceri Cryer Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, i siarad am y strategaeth genedlaethol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yng nghyfarfod nesaf y grŵp, sydd wedi’i drefnu ar gyfer 7 Mehefin 2022.

**Cyflwyniad - Canfyddiadau cychwynnol mewn perthynas â gofal cymdeithasol o’r trydydd arolwg cenedlaethol o brofiadau presennol pobl 50 oed neu’n hŷn yng Nghymru yn ystod y pandemig COVID-19 - Heather Ferguson - Pennaeth Polisi a Phrosiectau, Age Cymru**

Roedd y gwaith ymchwil cenedlaethol hwn a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar y tri mis diwethaf ar adeg cynnal yr arolwg i glywed am brofiadau pobl 50 oed neu’n hŷn, a’u barn ar y dyfodol.

Casglwyd y wybodaeth gennym ym mis Mawrth a dechrau mis Ebrill 2022, ac rydym dal wrthi’n cwblhau'r adroddiad cyffredinol a’r dadansoddiad manwl. Byddwn yn rhannu'r canlyniadau llawn gyda'r grŵp. Cynhaliwyd yr arolwg ar y cyd ag Age Cymru, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru (COPA), Senedd Pobl Hŷn Cymru, Cymru Egnïol, Confensiwn Cenedlaethol Pensiynwyr Cymru a Fforwm Pensiynwyr Cymru.

Dyma’r trydydd arolwg cenedlaethol a gynhaliwyd ar y cyd ers dechrau'r pandemig. Roedd yn hanfodol ein bod yn clywed yn uniongyrchol gan bobl 50 oed neu’n hŷn gan ein bod yn gwybod bod y pandemig wedi cael effaith anghymesur ar bobl hŷn, ac mae’n rhaid sicrhau bod eu lleisiau’n cael eu clywed a’u bod yn parhau i gael eu clywed.

Roedd yr arolwg yn canolbwyntio ar nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys: cyfathrebu, gofalwyr di-dâl, mynediad at iechyd a gofal cymdeithasol, lles corfforol a meddyliol, cyflogaeth, cyrchu cymunedau, profiadau defnyddiol o’r pandemig, heriau’r pandemig, costau byw ac adfer yn y dyfodol, ymhlith materion eraill.

Ymatebodd 1,169 o bobl 50 oed neu’n hŷn i’r gwaith ymchwil, ac roedd cyfradd ymateb debyg ar gyfer pob un o’r tri arolwg. Roedd oedran yr ymatebwyr yn amrywio o 50 i 100 oed. Roedd tua 40 y cant o’r ymatebwyr dros 70 oed, sef 14 y cant yn fwy na'r llynedd.

Roedd 68 y cant o'r ymatebwyr wedi ymddeol, gyda'r gweddill yn gweithio'n llawn amser neu’n rhan amser, neu roeddent yn hunangyflogedig, heb fod mewn gwaith cyflogedig, yn gwirfoddoli neu’n gweithio ar yr aelwyd. Roedd 31 y cant o ymatebwyr yn byw ag anabledd, a 4 y cant ohonynt yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog. Casglwyd ymatebion gan bobl ym mhob awdurdod lleol ledled Cymru.

Gofal cymdeithasol

Yn ein gwaith ymchwil, gwnaethom ofyn i bobl am eu profiad o gael mynediad at ofal cymdeithasol. Dywedodd 14 y cant o ymatebwyr wrthym eu bod wedi cael mynediad at ofal cymdeithasol neu wedi ceisio cael mynediad at ofal o’r fath yn ystod y tri mis diwethaf. O'r bobl hynny, dywedodd 30 y cant wrthym fod y profiad wedi bod yn un cadarnhaol, a dywedodd 70 y cant eu bod wedi cael profiadau negyddol.

Profiadau cadarnhaol – prif themâu

- Roedd yn hawdd cysylltu â therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion dros y ffôn
- Cefnogaeth ac ymroddiad gan ofalwyr
- Cefnogaeth gan asiantaethau trydydd sector

- Cefnogaeth gan nyrsys ardal.

Profiadau negyddol – prif themâu

- Prinder staff yn arwain at ofal achlysurol yn unig
- Diffyg gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Cyfathrebu gwael rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- Cyfathrebu gwael â defnyddwyr gwasanaethau
- Oedi hir cyn asesu anghenion gofal
- Aros yn hir am gefnogaeth yn y cartref

Gofalwyr di-dâl

Mae'n rhaid i ni fyfyrio ar yr hyn a ddywedodd gofalwyr di-dâl wrthym am eu profiadau presennol drwy'r gwaith ymchwil hwn, gyda llawer ohonynt o'r farn eu bod wedi gorfod ysgwyddo'r baich oherwydd nid oedd cymorth ar gael gan wasanaethau gofal cymdeithasol. Mae 31 y cant o'r bobl a gwblhaodd yr arolwg yn gofalu am rywun, ac mae 55 y cant o'r gofalwyr di-dâl hyn wedi gweld cynnydd yn eu cyfrifoldebau gofalu ystod y tri mis diwethaf.

Hefyd, gwnaethom ofyn beth oedd y profiadau mwyaf heriol yn ystod y tri mis diwethaf, a dywedodd 18 y cant o ymatebwyr wrthym mai gofalu am briod/cyfaill/perthynas oedd un o'r heriau.

Y prif faterion sy'n effeithio ar ofalwyr di-dâl:

- Teimlo'n ynysig
- Yn poeni am heintio'r person bregus y maent yn gofalu amdano
- Heriol/anodd gofalu am y person perthnasol
- Poeni am gyflogaeth a chyllid
- Diffyg seibiant

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Heather Ferguson –
Pennaeth Polisi a Phrosiectau Age Cymru –
heather.ferguson@agecymru.org.uk

Diolchodd Mike Hedges AS i Heather am y cyflwyniad. Ychwanegodd yr hoffai'r grŵp wahodd Heather i gyfarfod yn y dyfodol i roi cyflwyniad ar yr adroddiad ar yr arolwg pan gaiff ei gyhoeddi.

**Cyflwyniad – Ariannu gofal cymdeithasol – Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau cymdeithasol:**

Diolch am fy ngwahodd i'ch cyfarfod heddiw i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ariannu gofal cymdeithasol. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i gwrdd â chi i gyd.

Rydym wedi gwneud gwaith helaeth ar dalu am ofal, yn enwedig drwy'r Grŵp Rhyngweinidogol a sefydlwyd yn ystod tymor y Senedd flaenorol. Archwiliodd y Grŵp Rhyngweinidogol y posibilrwydd o godi arian ychwanegol ar gyfer addewid gofal cymdeithasol, fel y cynigiwyd yn gyntaf gan yr Athro Holtham yn ei adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru yn 2018. Roedd gwaith manwl y Grŵp Rhyngweinidogol yn cynnwys

dadansoddiad o’r opsiynau trethiannol posibl a’r opsiynau ariannu cyfatebol ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion.

Roedd yr opsiynau ariannu a drafodwyd yn gysylltiedig â faint o arian y dylid ei godi'n flynyddol ac ar sail gylchol i ariannu addewid gofal cymdeithasol; neilltuo cyllid o'i gymharu â hyblygrwydd cyllidebol; tegwch rhwng cenedlaethau; ac a allai’r budd-dal fod ar gael ar sail cyfraniad yn unig. Hefyd, gwnaethom drafod casglu a gweinyddu unrhyw opsiynau trethiannol, yn ogystal â pharodrwydd Llywodraeth y DU i ddatganoli rhagor o bwerau trethiannol.
Gwnaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd ddatganiad llafar i’r Senedd ar 16 Mawrth 2021 i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Aelodau am waith y Grŵp Rhyngweinidogol. Ar y pwynt hwnnw, daeth y Grŵp Rhyngweinidogol i’r casgliad y byddai’n well cael datrysiad ledled y DU ar gyfer ariannu gofal cymdeithasol, o ystyried y cysylltiadau cymhleth â’r systemau treth a budd-daliadau lles.

Daeth y Grŵp Rhyngweinidogol i’r casgliad, o ystyried y pandemig a’r hinsawdd economaidd a chyllidol, fod datrysiad trethiannol ar gyfer codi arian yn fwy dichonadwy yn y tymor hwy, a heb datrysiad o’r fath ni fyddai’n bosibl casglu neu ailgyfeirio adnoddau i wella gwasanaethau gofal cymdeithasol drwy'r addewid gofal cymdeithasol.

Fodd bynnag, argymhellodd y Grŵp Rhyngweinidogol fesurau i'w hystyried gan Lywodraeth newydd a allai, yn amodol ar flaenoriaethau’r gyllideb, gael eu gweithredu'n gyflymach. Roedd y rhain yn cynnwys cyflog byw gwirioneddol ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol a buddsoddi cyfalaf i alluogi gwell datrysiadau o ran tai, sydd bellach yn rhan o’n Rhaglen Lywodraethu newydd ac sy’n parhau’n flaenoriaethau i ni.

Ar 7 Medi 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU drefniadau ariannu hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ar ffurf cynnydd mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Mae’r cyfraniadau wedi cynyddu 1.25 y cant o ddechrau’r mis hwn, a bydd y taliadau hyn yn dod yn Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol benodol o fis Ebrill 2023. Roedd y cyhoeddiad, a’r manylion ychwanegol a ddilynodd, yn cynnwys diwygiadau arfaethedig i’r drefn o godi tâl am ofal cymdeithasol i oedolion yn Lloegr, a fydd yn effeithio ar asedau ac arbedion pobl yn Lloegr, yn ogystal â’u cyfraniad at gost eu gofal. Prif neges y cyhoeddiad oedd cap tebyg i gynnig Dilnot ar gostau gofal, ar ffurf cap 'am oes' o £86,000. Daw’r newidiadau hyn i rym ym mis Hydref 2023.

Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU, roedd yn amlwg nad oedd yr opsiwn roeddem yn ei ffafrio, sef datrysiad cynaliadwy ar gyfer y DU gyfan, yn agored i ni mwyach ac roedd angen trafod y ffordd ymlaen yng Nghymru yn benodol.

O’r herwydd, mae Grŵp Arbenigol wedi’i sefydlu fel rhan o’n Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru. Nod y Grŵp Arbenigol hwn yw llunio argymhellion ar gamau ymarferol y gellir eu cymryd tuag at sefydlu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol sy’n cynnig gofal am ddim yn ôl yr angen.

Mae ein hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu, yn ogystal ag yn y gyllideb y cytunwyd arni’n ddiweddar, yn dangos bod gofal cymdeithasol yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae’r rhan fwyaf o’r cyllid y cytunwyd arno

ar gyfer gofal cymdeithasol o fewn y Grant Cynnal Refeniw a chyllideb 2022-23 yn golygu cynnydd mawr mewn adnoddau ar gyfer awdurdodau lleol.

Fel rhan o setliad llywodraeth leol 2022-23, mae £67.4 miliwn o gyllid wedi'i gyfeirio at elfen gwasanaethau cymdeithasol personol y model dosbarthu. O ganlyniad, mae'r cynnydd cyffredinol ar gyfer y sector hwn, ar sail 'tebyg am ei debyg', yn £180.5 miliwn o fewn y setliad. Darperir y £180.5 miliwn o gyllid ychwanegol hwn o fewn y setliad llywodraeth leol i dalu'r cyflog byw gwirioneddol i weithwyr gofal ac ymateb i'r pwysau yn y sector.

Mae ein cyllideb yn gwneud defnydd llawn o'r adnoddau sydd ar gael i ni, gan gynnwys ein swm canlyniadol Barnett o'r Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r dyraniadau yn y gyllideb y cytunwyd arni gan y Senedd yn adlewyrchu ein dewis clir y dylid buddsoddi yn y gweithlu gofal cymdeithasol i helpu i sefydlogi'r gofal a ddarperir a chefnogi pobl sydd ag anghenion gofal yn well.

Bydd y gyllideb hon hefyd yn ein galluogi i gyflawni ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio, y siaradais â chi amdani yn eich cyfarfod diwethaf. Bydd y £550,000 rydym wedi'i ddyrannu i awdurdodau lleol eleni yn cefnogi eu gwaith o ddod yn sefydliadau o blaid pobl hŷn ac yn aelodau o Rwydwaith Dinasoedd a Chymunedau Oed Gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd. Byddaf yn cynyddu'r cyllid hwn i £1.1 miliwn ar gyfer 2022-23, gyda £50,000 yn cael ei ddyrannu i bob awdurdod lleol. Hefyd, byddaf yn dyrannu £100,000 eleni i hybu ymwybyddiaeth o hawliau pobl hŷn a meithrin dealltwriaeth gyffredin o effaith drawsnewidiol dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau.

O ran cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol yn y dyfodol, bydd ein Grŵp Arbenigol yn cynnwys y mater hwn yn ei drafodaethau. Wrth i waith y Grŵp barhau i ddatblygu, rydym yn dod yn nes at yr amser pan fydd yr argymhellion yn cael eu cyflwyno i ni. Bydd yr argymhellion hyn yn helpu i lywio ein penderfyniadau ar amserlen ein gwaith yn y tymor hwy. Mae Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, sy'n cynnig gofal am ddim yn ôl yr angen, yn gam sylweddol ymlaen yn ein gwaith o ddiwygio gofal cymdeithasol yng Nghymru. O ystyried y cymhlethdodau a ragwelir sy'n gysylltiedig â newid mor bwysig, yn ogystal â maint y sector gofal cymdeithasol, ni ellir gweithredu agenda uchelgeisiol fel hon ar unwaith. O gofio hynny, byddwn yn ymgysylltu'n allanol wrth lunio ein cynllun gweithredu erbyn diwedd 2023, ac edrychwn ymlaen at weithio gyda'r sector i greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol i Gymru.

Diolchodd Mike Hedges AS i'r Dirprwy Weinidog am y cyflwyniad.

**Cwestiynau a thrafodaeth**

Darllenodd Mike Hedges gwestiwn gan Georgia Marks – 'Beth yw'r amserlen ar gyfer yr ymgynghoriad ar ariannu gofal cymdeithasol'?

Eglurodd y Dirprwy Weinidog a Matt Jenkins eu bod am i'r argymhellion gael eu cyflwyno erbyn diwedd mis Mai – bydd Llywodraeth Cymru wedyn yn trafod yr adroddiad ac yn llunio cynllun gweithredu erbyn diwedd 2023.

Steve Milsom – Mae llawer iawn i'w groesawu yn y cyflwyniad, yn enwedig y symud tuag at wasanaeth gofal cenedlaethol a gofal ychwanegol. Mae'r arolwg yn dangos bod pobl yn cael trafferthion, ac rydym yn falch nad ydym yn dilyn trywydd y capiau yn Lloegr. Mae'n rhaid i ni gynnwys y sefydliadau cenedlaethol sy'n gweithio gyda phobl hŷn.

Dirprwy Weinidog - dylai pobl hŷn fod yn rhan o'r ymateb. Mae'n bwysig cadw'r cysylltiad â llywodraeth leol ac adeiladu ar wasanaethau cymunedol presennol.

Dereck Roberts - Mae'r Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol yn croesawu hyn; hynny yw, cynnig gofal cymdeithasol am ddim yn ôl yr angen. Mae llawer o bobl wedi gadael y sector. Rhaid i ni beidio â gadael i ofnau ynghylch chwyddiant atal y cynlluniau rhag mynd yn eu blaenau.

Dirprwy Weinidog - Mae miloedd o bobl hŷn yn yr ysbyty yn aros am becynnau gofal. Bydd £10 miliwn yn cael ei ddyrannu i helpu gweithwyr gofal cartref; er enghraifft, i dalu am drwyddedau gyrru a cheir trydan. Bydd hyn yn cymryd amser ond gadewch i ni benderfynu ar gyfeiriad y daith.

Mike Hedges AS – Mae pob un ohonom ar yr un ochr, sef eich ochr chi.

Dirprwy Weinidog – Mae ymrwymiad i bobl hŷn yn greiddiol i'r grŵp hwn.

Camau gweithredu: Nododd Mike Hedges y gallai aelodau'r grŵp ymateb i'r ymgynghoriad ar ariannu gofal cymdeithasol

Bydd y grŵp hefyd yn gwahodd Heather Ferguson o Age Cymru i roi cyflwyniad ar y trydydd arolwg COVID-19 pan gaiff ei gyhoeddi.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 7 Mehefin 2022 - Bydd Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, yn ymuno â ni i siarad am y strategaeth genedlaethol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV).

**3. <u>Lobïwyr proffesiynol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau y mae'r Grŵp wedi cyfarfod â hwy yn ystod y flwyddyn flaenorol</u>**

Dim, heblaw'r unigolion a'r sefydliadau a nodwyd fel mynychwyr cyfarfodydd y grŵp neu a roddodd gyflwyniadau yn ystod cyfarfodydd y grŵp.

# Datganiad Ariannol Blynyddol.

## 7 Mehefin 2022

## Y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio

Mike Hedges AS

Age Cymru

| | | |
|---|---|---|
| Treuliau'r grŵp. | Cyfieithu i'r Gymraeg<br>*Adroddiad blynyddol y grŵp*<br>*2020/21 (9/2/21)*<br>*£285.70*<br>*Cofnodion cyfarfod y grŵp ar*<br>*21/6/21 (13/8/21)*<br>*£122.40* | £408.10 |
| Costau'r holl nwyddau. | Ni phrynwyd nwyddau. | £0.00 |
| Buddion a gafodd y grŵp neu unigolyn Aelodau o gyrff allanol. | Ni chafwyd buddion. | £0.00 |
| Unrhyw gymorth ysgrifenyddol neu gymorth arall | Ni chafwyd cymorth ariannol<br>. | £0.00 |
| Gwasanaethau a ddarparwyd i'r grŵp, fel lletygarwch.<br><br>Talodd Age Cymru am yr holl luniaeth. | | |
| Dyddiad | Disgrifiad ac enw'r darparwr | Cost |
| | | £0.00 |
| | Cyfanswm y gost | £408.10 |

Atodiad 1

**Dyddiad y cyfarfod:** 9 Chwefror 2021 – cyfarfod ar-lein

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn ystod y bumed Senedd.

| **Yn bresennol** | |
|---|---|
| Mike Hedges AS | Victoria Lloyd, Age Cymru |
| Julie Morgan AS, Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Ryland Doyle, Swyddfa Mike Hedges AS | Steve Milsom, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru<br>(COPA)<br>Melanie Minty, Fforwm Gofal Cymru |
| Huw Bendall, Age Cymru, Fforwm Ymgynghorol | Rachael Nicholson-Wright, Hourglass Cymru |
| Maria Cheshire-Allen, Prifysgol Abertawe<br>Ceri Cryer, Age Cymru | Faye Patton, Gofal a Thrwsio Cymru<br>Michael Phillips, Age Cymru |
| Kathleen Grieve, MSD | Helen Twidle, Age Cymru |
| Stephanie Griffith, Gofal Cymdeithasol Cymru | Lynda Wallis, Fforwm Strategaeth 50+ y Fro<br>Senedd Pobl Hŷn Cymru |
| Joshua Hayman, Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | Christopher Williams, Cynghrair Henoed Cymru |
| Carys Henry, Age Cymru Ymddiriedolwr | Yr Athro John Williams, Cadeirydd Age Cymru; Prifysgol Aberystwyth |
| Rachel Lewis, Llywodraeth Cymru | |

Ymddiheuriadau: Charles Carter, Dai Lloyd AS, Dereck Roberts.

Cadeirydd: Mike Hedges AS

Ysgrifenyddiaeth: Ceri Cryer, Age Cymru

**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio: Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Oherwydd mater technegol, nid oedd Mike Hedges AS yn gallu cadeirio'r cyfarfod, felly Ceri Cryer oedd wrth y llyw.

Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio.

Gohiriwyd y broses o ethol Cadeirydd y grŵp tan y cyfarfod nesaf.

Cytunodd Ceri Cryer, Age Cymru, i barhau'n ysgrifennydd i'r grŵp.

**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio: Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio**

Rhannodd Ceri Cryer neges gan Dereck Roberts (Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru), a oedd wedi anfon ei ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod heddiw, i nodi y bydd y Confensiwn yn cynnal cyfarfod gweithredol arbennig ar 14 Chwefror i ddrafftio ymateb ffurfiol i'r strategaeth.

<u>Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio - Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:</u>

> Cafodd y strategaeth ei llunio ar y cyd â phobl hŷn a'u cynrychiolwyr. Mae pobl hŷn wedi cymryd rhan yn y gwaith o lunio'r strategaeth o'r dechrau ac maent wedi helpu i lywio ei dyluniad a'i datblygiad. Yn y pen draw byddant hefyd yn chwarae rôl yn y gwaith o'i chyflwyno.
>
> Arweiniwyd y gwaith cychwynnol gan Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio. Yn 2018, cynullodd y Fforwm bum gweithgor i ganolbwyntio ar y prif feysydd yr oedd yr aelodau'n teimlo bod yn rhaid i ni wneud cynnydd ynddynt ar ran poblogaeth sy'n heneiddio, sef trafnidiaeth; cyfranogiad; tai; gwneud hawliau yn real a chynllunio ar gyfer y dyfodol.
>
> I adeiladu ar y gwaith hwn, gwnaethom ymgysylltu â dros 1,000 o bobl hŷn mewn sgwrs am heneiddio. Rydym wedi ymweld â grwpiau cenedlaethol a fforymau lleol ledled Cymru ac wedi ariannu cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu cymunedol dan arweiniad Age Cymru. Hefyd, gwnaethom gomisiynu Age Cymru i gynnal grwpiau ffocws gyda phobl hŷn o grwpiau lleiafrifol.
>
> Cymerodd rhai pobl sy'n bresennol yma heddiw ran yn y gwaith hwn, felly hoffwn ddiolch i chi am eich cyfraniadau a chroesawu eich ymgysylltiad parhaus.
>
> Mae'r strategaeth yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i sicrhau y gall Cymru fanteisio ar y niferoedd cynyddol o bobl hŷn yn ein cymunedau. Bydd hyn yn ein galluogi i gefnogi pobl sy'n byw mewn amgylchiadau heriol yn well. I adlewyrchu natur amlochrog heneiddio, rydym wedi gweithio ar draws y Llywodraeth i fynd i'r afael â'r ystod eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar y ffordd rydym yn heneiddio – o'n systemau iechyd, gofal cymdeithasol a thrafnidiaeth i'r ffordd rydym yn cymdeithasu, yn gweithio ac yn gofalu am bobl eraill.
>
> Mae ein gweledigaeth genedlaethol ar gyfer Cymru o blaid pobl hŷn yn cwmpasu'r gweithleoedd pobl, eu hawliau a'u hawliadau, eu perthnasoedd o fewn eu teuluoedd a'u cymunedau lleol a'u perthynas â Llywodraeth genedlaethol. Mae'r weledigaeth hon hefyd yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng cenedlaethau. Bwriad y strategaeth yw annog pob rhan o gymdeithas i ymuno â ni i drafod y camau y dylent eu cymryd i gynllunio ar gyfer eu dyfodol eu hunain ac i'n cefnogi i gyflawni ein gweledigaeth.

Mae'r strategaeth yn mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau, ac sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, cyfiawnder cymdeithasol a grymuso ar draws ystod o feysydd polisi, gan osod lleisiau pobl hŷn wrth wraidd y broses o lunio polisïau Llywodraeth Cymru. Mae Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn wedi llywio'r gwaith o lunio'r strategaeth hon a byddant yn helpu i lywio'r ffordd y caiff ei gweithredu hefyd. I gefnogi dull seiliedig ar hawliau, rydym wedi gweithio gyda phobl hŷn a gweithwyr proffesiynol i ddrafftio canllawiau ymarferol sy'n dangos sut y gall awdurdodau lleol roi sylw dyledus i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r canllawiau'n dangos sut y gall newidiadau syml i'r ffordd rydym yn gweithio helpu i sicrhau hawliau dynol unigolyn a chael effaith fawr ar ei lesiant. Rydym hefyd wedi llunio fersiwn o'r canllawiau hyn yn benodol ar gyfer pobl hŷn. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, byddwn yn gweithio gyda Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio i gytuno ar gynllun gweithredu a'i gyhoeddi. Bydd y cynllun hwn wedyn yn llywio'r broses o weithredu'r strategaeth.

Byddaf hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn i ddeall effaith y pandemig ar hawliau pobl hŷn yng Nghymru. Mae diogelu a hyrwyddo hawliau yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon – mae'r pandemig wedi dangos yn glir pa mor bwysig yw dull seiliedig ar hawliau o ddylunio a gweithredu polisïau.

Cyn y Nadolig, gwnaeth Llywodraeth Cymru gadarnhau y byddai cyllid Age Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 yn parhau. Gwnaethom lwyddo i ddarparu cyllid ychwanegol yn 2020 i alluogi Age Cymru i gefnogi'r 5 sefydliad pobl hŷn cenedlaethol ymhellach a hwyluso ymgysylltiad ehangach â grŵp mwy amrywiol o bobl.

Mae'r arolwg a gyhoeddwyd fis Hydref diwethaf i gasglu gwybodaeth am brofiadau pobl hŷn o'r pandemig yn dystiolaeth o'r gwaith hwn a bu ymateb aruthrol iddo. Cafwyd dros 1,100 o ymatebion, gan gynnwys 50 gan fenywod hŷn o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae trefniadau ar y gweill i ailadrodd y gwaith hwn. Oherwydd bod y pandemig yn newid mewn ffordd mor ddramatig, mae'n bwysig i ni allu dogfennu a yw pryderon pobl wedi newid ymhellach yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf.

Mae gwaith ymgysylltu fel hwn yn hynod bwysig i sicrhau bod pawb, ni waeth beth yw ei amgylchiadau, yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio arno yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwn wedi helpu i lywio'r strategaeth fel dogfen ystyrlon, a bydd yn parhau i wneud hynny.

Mae creu Cymru o blaid pobl hŷn sy'n sicrhau hawliau pobl hŷn ac yn hyrwyddo undod rhwng cenedlaethau yn fwy perthnasol heddiw nag erioed o'r blaen. Drwy gydweithio, rwy'n hyderus y byddwn yn cyflawni'r nod hwn ac yn gwella bywyd pob person hŷn yng Nghymru.

Cwestiynau a thrafodaeth

Croesawodd Steve Milsom (COPA) y Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio a'r ffordd y mae'n codi proffil pobl hŷn, gan ddweud: Rydym eisoes wedi cyfrannu at waith Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio fel grŵp. Rydym yn croesawu'r ffaith ei bod yn fenter drawsbynciol i'r Llywodraeth, heb fod yn fater i'r adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn unig. Mae angen ffocws ar dalu am ofal, cynhwysiant ariannol, llesiant, budd-daliadau, a chyfrifoldebau neiniau a theidiau. Mae'n rhaid i'r strategaeth gynnwys mwy o fanylion am wahanol fathau o lety, fel cartrefi gofal, tai, teleofal a gofal ychwanegol. Hefyd, mae'n rhaid ymrwymo i basys bws am ddim i helpu i sicrhau Cymru o blaid pobl hŷn.

Dywedodd Faye Patton fod amodau tai wedi gwaethygu yn ystod y cyfnod clo oherwydd nid oedd pobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau atgyweirio, neu roeddent yn anfodlon defnyddio'r gwasanaethau hyn oherwydd y risgiau posibl. Mae'n rhaid i'r strategaeth fanylu ar yr hawl i dai addas, yn ogystal â phwysigrwydd cynnal a chadw tai a chartrefi oer.

Croesawodd John Williams y parodrwydd i gynnwys pobl hŷn yn y gwaith ac i fabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau. Mae'n bwysig bod y strategaeth yn gweithredu ar draws adrannau'r Llywodraeth a'i bod yn cynnwys dull sy'n pontio'r cenedlaethau ac yn croesawu pob cenhedlaeth, o gofio bod gan lawer o bobl ifanc neiniau a theidiau. Sut ydym yn bwriadu monitro a mesur llwyddiant, a sut fyddwn yn nodi methiant ac yn ymateb iddo?

Atebodd Julie Morgan ei bod yn bwysig cydweithio ar draws holl adrannau'r Llywodraeth. Nid oes llawer o fanylion am dai - mae'n rhaid sylweddoli nad yw rhai pobl wedi taflu unrhyw beth allan ers mis Mawrth diwethaf mewn rhai achosion!

O ran ariannu gofal cymdeithasol, mae'n rhaid edrych ar ffyrdd o godi arian drwy drafod nifer o opsiynau.

O ran gwybod a ydym yn llwyddo – bydd yn rhaid mesur sut mae pobl yn teimlo am bethau nawr a sut maen nhw'n teimlo ar ôl i gyfnod y strategaeth ddod i ben.

Ychwanegodd Rachel Lewis fod y Llywodraeth yn gweithio i bennu gwaelodlin. Bydd y strategaeth yn cael ei monitro gan ddefnyddio mynegai ar gyfer Cymru a ddyfeisiwyd gan Brifysgol Abertawe, a fydd yn cymharu Cymru â gwledydd eraill y DU.

Unrhyw fater arall

Gofynnwyd am ddyddiadau posibl ar gyfer cyfarfodydd y grŵp yn y dyfodol.

Diolchodd Ceri Cryer am gyfraniadau pob un a ddaeth i'r cyfarfod.